CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	**Cogydd Ysgol Gynradd Lefel 2**
Rhif y Swydd:	**MCC2827**
Cod Gwerthuso Swyddi:	**LES298**
Gwasanaeth:	**Arlwyo a Glanhau**
Lleoliad/Canolfan Waith:	**Ysgol Gynradd Dyffryn Maesyfed**

(mae hon yn swydd gweithio o leoliad, ac felly bydd rhaid i'r sawl sydd yn y swydd weithio o leoliad penodol fel y nodir)

Graddfa:	**Graddfa 5** **Pwynt 7 i Bwynt 9** **£27,274 i £28,153 y flwyddyn ar gyfartaledd** **£14.13 i £14.59 yr awr**
Oriau'r contract:	**25 awr, Parhaol**
Atebol i:	Rheolwr Arlwyo Ardal
Cyfrifoldeb dros:	1-3 aelod o staff a fydd efallai'n cynnwys staff allanol

Crynodeb

Am y rôl:

Paratoi, Coginio a Gweini bwyd mewn eiddo Cyngor Sir Powys trwy ddefnyddio adnoddau'n effeithlon yn unol â Deddf Diogelwch Bwyd, cydymffurfio â safonau maeth yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru a'r holl weithdrefnau, polisïau a deddfwriaethau perthnasol.
Cyfrifoldeb am grwp bychan o staff arlwyo, un ai o fewn un sefydliad neu mewn safleoedd allanol, gan ddefnyddio adnoddau yn y dull mwyaf effeithlon.
Hyrwyddo'r Gwasanaeth Arlwyo trwy ddigwyddiadau hyrwyddo a bod yn ymwybodol bob dydd o gwsmeriaid.

Bydd eich cyfrifoldebau'n cynnwys:

1. Cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelwch Bwyd ar bob adeg ynghyd â Pholisïau a Gweithdrefnau Gwasanaethau Arlwyo Powys gan gynnwys y Polisi Glanweithdra a Golchi Dwylo. Sicrhau safonau da o arferion gwaith diogel ar bob adeg.

2. Sicrhau bod yr holl archebu, storio, paratoi, coginio, cyflwyno a gweini prydau bwyd yn cael ei wneud ar y safle yn unol â holl ofynion y gwasanaeth.

3. Sicrhau bod yr holl brydau bwyd yn cael eu gweini ac yn cydymffurfio â chanllawiau maeth a chyllideb Llywodraeth Cymru gan gynnwys cynnal y rheoliadau o ran cyfrannau, gan gynnwys dietau arbennig.

4. Cadw cofnodion manwl-gywir a rheoli stoc yn ôl y cyfarwyddiadau.

5. Goruchwylio staff y gegin o ddydd i ddydd, gan gynnwys dyrannu dyletswyddau ac hyfforddiant 'wrth wneud y swydd'.

6. Cwrdd â'r Pennaeth neu gwsmeriaid fel y bo'r angen.

7. Mynychu holl hyfforddiant perthnasol pan fo angen (a allai gynnwys hyfforddiant y tu allan i oriau craidd neu hyfforddiant ar-lein yn unol â chyfarwyddyd)

8. Cynnal safon y gwaith trwy:
    - sicrhau bod yr holl offer yn gweithio'n gywir
    - rhoi gwybod am unrhyw offer nad yw'n gweithio yn ôl y gweithdrefnau
    - sicrhau arferion hylendid da
    - sicrhau amgylchedd gwaith diogel

9. Gwisgo unrhyw ddillad / esgidiau priodol a roddir.

Gofynion Gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

Oherwydd natur y gwaith sydd ynghlwm a'r gwaith, bydd y swydd hon yn destun y Ddeddf Adsefydlu Tramgwyddwyr 1974 (Eithriadau) Gorchymyn 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2013) - Bydd angen Gwiriad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y swydd hon. Dosberthir y swydd yn weithgaredd rheoledig dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, a bydd yn destun gwirio rhestr o'r bobl hynny sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant.

Gofynion Iechyd a Diogelwch

Cydweithio a'r cyflogwr a dilyn cyngor a chyfarwyddiadau iechyd a diogelwch.

Datganiad Cydraddoldebau:

Cadw at egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor.

Gofynion y Gymraeg
Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

SYLWCH;

Er y manylion sydd yn y swydd ddisgrifiad, bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd wneud unrhyw waith ar gais y Rheolwr o dro i dro, hyd at neu ar lefel sy'n cyfateb â 'Phrif Gyfrifoldebau'r Swydd.'

Y PERSON

Ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'r rôl? Os felly, dangoswch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf canlyniol yn eich cais.

Profiad

Hanfodol

- Profiad o weithio mewn cegin brysur ac o fewn amserlenni tynn
- Profiad o ddefnyddio offer arlwyo
- Profiad o arwain tim o fewn amserlenni tynn a sicrhau diogelwch bwyd
- Profiad yn y gwaith o ddefnyddio bwydlenni a ryseitiau
- Profiad o reoli cyfrannau

Gwybodaeth

Hanfodol

- Anghenion bwydlenni a ryseitiau.
- Dealltwriaeth dda o fwyta'n iach, safonau maeth a dietau arbennig
- Dealltwriaeth am alergeddau
- Dealltwriaeth o'r Ddeddf Diogelwch Bwyd
- Dealltwriaeth am Iechyd a Diogelwch

Dymunol

- Prydau bwyd ysgolion

Cofrestriadau, Cymwysterau a Hyfforddiant

Hanfodol

- Mae'r gallu i gyflawni Tystysgrif Diogelwch Bwyd Lefel 2 yn hanfodol
- Gallu i gwblhau hyfforddiant Codi a Chario
- Gallu i fonitro incwm a rheoli gwaith a chostau bwyd
- Gallu i fynychu hyfforddiant y tu allan i oriau craidd

Dymunol

- 706/1/2 City and Guilds neu debyg

Rhinweddau Personal

Hanfodol

- Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol da.
- Gallu i weithio fel rhan o dim
- Gallu i fod yn arweinydd tim

Sgiliau

Hanfodol

- Sgiliau llythrennedd a rhifedd yn hanfodol
- Yn gallu gwneud y gwaith papur yn gywir
- Yn gallu cydymffurfio â phob lefel o gyfrinachedd.
- Gallu dangos y tasgau i staff
- Gallu ymdopi â gofynion corfforol y swydd

Dymunol

- Trwydded yrru yn ddymunol
- Sgiliau TG ac yn gallu defnyddio'r e-bost
- Gallu siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

Rheolwr recriwtio: Cheryl Leighton
Tachwedd 2014

Ein gwerthoedd:

Proffesiynol
Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb ac integriti ym mha bynnag rôl yr ydym yn ei chwarae yn y cyngor

Cadarnhaol
Mae ein hagwedd yn gadarnhaol ym mhopeth a wnawn

Blaengar
Mae ein hymagwedd yn rhagweithiol a chyfrifol wrth gynllunio am y dyfodol

Agored
Rydym yn hysbysu'n gilydd gan rannu gwybodaeth ac ymddwyn â gonestrwydd ac integriti

Cydweithiol
Rydym ni'n gweithio'n adeiladol ac â pharodrwydd ar fentrau ar y cyd

Sut i ymgeisio

Bydd angen i chi gwblhau'r cais ar-lein, mae'n syml, dilynwch y broses gam wrth gam.

Gair i gall:

- Darllenwch y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person yn ofalus a'r dystiolaeth eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn eich datganiad cefnogi.
- Gwerthwch eich hun a rhowch enghreifftiau ble y bo'n bosibl
- Rhestrwch y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r swydd, yn ôl y manylion ym manyleb y person.
- Sicrhewch fod un o'ch canolwyr o'ch cyflogwr mwyaf diweddar neu os mai hon yw eich swydd gyntaf beth am ofyn i athro ysgol neu diwtor, ond sicrhewch eich bod yn adnabod y canolwr ar lefel broffesiynol.
- Byddwch yn onest a dywedwch wrthym am unrhyw fylchau yn hanes eich cyflogaeth

- Cwblhewch y cais yn gyflawn

Camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 29/11/2026
Ar ôl cyflwyno byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi ein bod ni wedi derbyn eich cais.
Byddwn yn creu rhestr fer o'r ceisiadau ar 30/11/2026. Byddwn yn anfon e-bost atoch os ydych chi'n llwyddiannus ai peidio. Felly, cadwch lygad ar eich mewnflwch!

Bydd y cyfweliadau'n digwydd ar 02/12/2026

Dymunwn bob hwyl i chi gyda'ch cais.